**DRAFFT**

# AWDURDOD DATBLYGU CYMRU
# Adolygu Perfformiad
# hyd at 31ain Awst 2002

**CYNNWYS**

1. Cyflwyniad

2. Golwg Gyffredinol ar ein Perfformiad

    2.1. Golwg Gyffredinol ar ein Perfformiad

    2.2. Crynodeb o'r Canlyniadau Strategol

    2.3. Siartiau Targedau Strategol a Gweithredol

    2.4. Manylion am y Targedau Gweithredol y llwyddwyd i'w cyflawni

3. Blaenoriaethau a Thargedau

**ATODIADAU**

1. Crynodeb Ariannol

## 1. CYFLWYNIAD

Mae cylch cynllunio'r Awdurdod yn dechrau gyda'r Llythyr Cylch Gorchwyl blynyddol gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn Ionawr 2002. Mae'r llythyr hwn yn nodi'r cyd-destun, y prif flaenoriaethau, y cyllidebau a'r targedau ar gyfer yr Awdurdod am y tair blynedd sy'n dilyn.

Cafodd Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2002/2005 sy'n adeiladu ar hyn ei ystyried gan y Pwyllgor yng Ngorffennaf 2001. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi fframwaith ar gyfer gwaith manwl yr Awdurdod, ei ganlyniadau a'i ffynonellau ariannol. Cyflwynwyd Cynllun Gweithredol eleni, h.y. 2002/2003 i'r Pwyllgor ar 20 Mawrth 2002.

Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod ar sail y blaenoriaethau a'r targedau a nodwyd yn y Llythyr Cylch Gorchwyl ar gyfer pum mis cyntaf y Flwyddyn Ariannol hon, h.y. hyd at 31 Awst 2002.

Y tro diwethaf i'r Awdurdod fynychu'r Pwyllgor oedd ym mis Gorffennaf, ac roedd hynny i drafod ein Cynllun Corfforaethol sy'n ymdrin â'r cyfnod o dair blynedd o Ebrill 2003 ymlaen, a'n perfformiad yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r blaenoriaethau, y cyllidebau a'r targedau a bennwyd gan y Cynulliad ar gyfer Cynllun Busnes eleni (2002-2003).

## 2. GOLWG GYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

### 2.1 GOLWG GYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

- Mae cylch gorchwyl yr Awdurdod yn nodi y dylai chwarae rhan lawn yn y gwaith o geisio cyflawni'r blaenoriaethau a'r targedau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Cymru'n Ennill', a hynny drwy Gymru gyfan. Bwriadwn wneud hyn drwy gynnig atebion sy'n cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid, yn fusnesau hen a newydd, unigolion a chymunedau ym mhob cwr o Gymru. Mae'r atebion hyn yn seiliedig ar gefnogaeth partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

- Gosodwyd nifer o dargedau strategol a gweithredol i'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol yn y Llythyr Cylch Gorchwyl a anfonwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nodir ein perfformiad hyd yn hyn a'n rhagolygon ar gyfer y flwyddyn yn fanwl yn yr adroddiad hwn. Mae'r Awdurdod yn anelu at gyrraedd neu fynd gam ymhellach na phob un o'i dargedau strategol.

- Mae'n ymddangos y bydd nifer y swyddi sydd wedi eu creu a'u diogelu ychydig yn uwch na'r targedau a roddwyd inni. Nid yw'r rhain yn ffigyrau net gan nad yw'r manylion am gyfanswm y swyddi ar gael eto.

- Mae swyddi newydd yng Nghymru yn tueddu fwy a mwy i fod ar raddfa lai ond o ansawdd gwell. Mae hyn yn adlewyrchu'r symudiad tuag at economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, mwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint a thargedu buddsoddiad mewn sectorau twf pwysig yng Nghymru ac o dramor.

- Ceir tystiolaeth hefyd bod y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yn dwyn ffrwyth, a bwriadwn atgyfnerthu hyn drwy Strategaeth Cyfraddau Geni Busnesau.

- Llwyddodd Cyllid Cymru gyrchu arain sylweddol o du Ewrop a'r sector preifat. Arweiniodd hyn at nifer helaeth o gytundebau ecwiti, mezzanine a benthyca: fodd bynnag, ni chafwyd ond galw isel am feicro-fenthyciadau Cyllid Cymru. Ymddengys fod cyflwyno grantiau ynghyd â benthyciadau a chredyd teulu wedi disodli y galw am y math hwn ar drefniant.

- Mae gwariant yr Awdurdod hyd yn hyn ychydig yn is na'r proffil, sy'n gogwyddo tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol. Disgwyliwn y bydd y Cymorth Grant a'r ffynonellau ariannol eraill, yn enwedig Cronfeydd Strwythurol yr UE, yn cael eu dihysbyddu, ac mae'r defnydd a wneir ohonynt yn cael ei fonitro'n ofalus.

- Rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n safleoedd cyflogaeth strategol ac rydym yn gweithio, gyda phartneriaid, er mwyn datblygu portffolio o adeiladau sy'n cwrdd ag anghenion busnesau yng Nghymru, o unedau ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint i unedau deori gyda chefnogaeth ar y safle i adeiladau ar gyfer sectorau penodol.

## 2. GOLWG GYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

## 2.2 CRYNODEB O'R CANLYNIADAU STRATEGOL


| | Gwreiddiol | Gwir | Ail ragolwg | Gwreiddiol | Gwir | Ail ragolwg | Gwreiddiol | Gwir | Ail ragolwg | Gwreiddiol | Gwir | Ail ragolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogaeth i Fusnesau** | | | | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyffredinol | 4,500 | 1,268 | 4,751 | 3,500 | 1,355 | 4,337 | 14,000 | 14,925 | 23,527 | 2,000 | 1,265 | 2,606 |
| Cefnogaeth Arbenigol | 9,000 | 3,943 | 8,783 | 9,500 | 4,870 | 11,216 | 475,000 | 229,420 | 691,923 | 240 | 29 | 171 |
| Isadeiledd Busnes | 50 | 5 | 132 | 200 | 15 | 31 | 55,000 | 81 | 36,781 | - | - | - |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cefnogaeth i Gymunedau** | 1,000 | 32 | 1,157 | 1,000 | 28 | 1,629 | 26,000 | 27,924 | 35,813 | - | - | - |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cefnogaeth i Unigolion** | 450 | 1,136 | 1,840 | 1,800 | 0 | 0 | 50,000 | 17,810 | 51,112 | 1,760 | 731 | 1,223 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Rhaglen Gyfan** | **15,000** | **6,384** | **16,663** | **16,000** | **6,268** | **17,213** | **620,000** | **290,160** | **839,156** | **4,000** | **2,025** | **4,000** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Gorll Cymru + Cymoedd** | 10,500 | 4,306 | 11,600 | 11,200 | 5,542 | 12,000 | 434,000 | 161,297 | 490,000 | 2,800 | 1,292 | 2,800 |

# 2. GOLWG CYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

## 2.3 SIARTIAU TARGEDAU STRATEGOL A GWEITHREDOL


### A) TARGEDAU STRATEGOL

**TARGEDAU A PHERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD O 5 MIS HYD DDIWEDD AWST 2002**




**•O'r cyfanswm hyd yn hyn, mae Mewnfuddsoddi yn gyfrifol am 2,145 o swyddi newydd a 3,263 wedi'u diogelu. Mae'r cyfanswm hyd yn hyn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (ardal Amcan Un) yn 9,848, h.y. 77% o'r cyfanswm**

**TARGEDAU A PHERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD O 5 MIS HYD DDIWEDD AWST 2002**




**•Mae'r buddsoddiadau mawr yn cynnwys General Dynamics yn Oakdale a BT Ignite ym Mae Caerdydd**

**•Y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yn dechrau dwyn ffrwyth. Yn disgwyl Cymeradwyaeth Amcan Un i'r Strategaeth Cyfraddau Geni Busnesau cyn bo hir**


**•Dim llawer wedi manteisio ar Gymorth Cyllid Cymru i Fusnesau sy'n Cychwyn o gymharu a thwf busnesau sy'n bodoli'n barod. Staff Cyllid Cymru bellach wedi eu lleoli mewn swyddfeydd rhanbarthol ac yn hybu eu gwasanaethau gyda chanolwyr lleol allweddol**

## 2. GOLWG GYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

## 2.3 SIARTIAU TARGEDAU STRATEGOL A GWEITHREDOL

## B) TARGEDAU GWEITHREDOL

### TARGEDAU A PHERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD O 5 MIS HYD DDIWEDD AWST 2002





•Heb gynnwys ymholiadau drwy'r Gateway Cyswllt Busnes

•Llawer o gyfleoedd yn sgil Accelerate Wales a phrosiectau cyfalaf sylweddol

•Trosi cyfleoedd a gyflwynwyd yn bennaf yn ystod y Flwyddyn Ariannol flaenorol

### TARGEDAU A PHERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD O 5 MIS HYD DDIWEDD AWST 2002





•Deilliannau o weithgareddau Arloesi a Thechnoleg a Rheolwyr Cysylltiadau gyda gwybodaeth helaeth am gynnyrch/cefnogaeth yn gweithio mewn cysylltiad agos â chlientau

# 2. GOLWG GYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

## 2.3 SIARTIAU TARGEDAU STRATEGOL A GWEITHREDOL

### B) TARGEDAU GWEITHREDOL (Parhad)

**TARGEDAU A PHERFFORMIAD AR GYFER Y CYFNOD O 5 MIS HYD DDIWEDD AWST 2002**




•Yn cynnwys adeiladau parod ac adeiladau ar eu cyfer a chynlluniau ailddatblygu canol trefi. Adeiladu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Datblygu, datblygiadau â chymorth grant a mentrau datblygu ar y cyd

•Deilliannau wedi eu cofnodi dim ond ar ôl cwblhau prosiectau sy'n cynnwys gwaith diolgelwch a pharatoi safleoedd ar gyfer prosiectau adfywio.

## 2. GOLWG GYFFREDINOL AR EIN PERFFORMIAD

## 2.4 MANYLION AM Y TARGEDAU GWEITHREDOL Y LLWYDDWYD I'W CYFLAWNI

Ceir manylion isod am weithgareddau a pherfformiad yr Awdurdod ar sail y penawdau sydd yn y Cynllun Busnes a gymeradwywyd.

### 1.1 CEFNOGAETH GYFFREDINOL I FUSNESAU

**Amcanion**
Darparu cyngor a gwybodaeth ddiduedd o ansawdd da i fusnesau; cefnogi cwmnïau drwy'r Porth Cyswllt Busnes, gan alluogi nifer fawr o fusnesau bach a newydd i dyfu.

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a Gynorthwywyd (1) | 8,200 | 3,071 | 8,260 |
| Adolygiadau diagnostig (2) | 4,000 | | |
| Busnesau newydd a sefydlwyd (3) | 2,000 | 1,265 | 2,847 |
| Gwerth cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd (4) | £6.7 m | £8.8m | £14m |
| Gwerth busnesau newydd a sicrhawyd (5) | £1.6 m | £1.08m | £1.6m |

1. *Ddim yn cynnwys 11,292 o ymholiadau yr ymdriniwyd â hwy gan Ganolfan Alwadau Genedlaethol Porth, ond yn cynnwys atgyfeiriadau i'r Awdurdod Datblygu*
2. *Ailddosbarthwyd dan Adolygiadau technoleg cefnogaeth arbenigol*
3. *Cynnydd yn y canlyniad a ragwelir yn sgil llwyddiant swyddogaethau Menter a drosglwyddwyd o'r Cynghorau Hyfforddi a Menter*
4. *Cynnydd yn y rhagolygon o ganlyniad i ailddosbarthu rhai deilliannau o'r rhaglen Cadwyni Cyflenwi a Rhwydweithiau fel busnes i fusnes cyffredinol*
5. *Y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y busnesau a sicrhawyd o gyfleoedd a wireddwyd o'r flwyddyn ariannol flaenorol.*

## 1.2 CEFNOGAETH ARBENIGOL AR GYFER TECHNOLEG AC ARLOESI, e-FASNACH A THWF SECTORAU

**Amcanion**
Darparu cymorth arbenigol i fusnesau, gan ganolbwyntio ar sectorau sydd o bwysigrwydd strategol allweddol yn economi Cymru yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Annog sefydlu fforymau sectorau, darparu gwybodaeth am farchnadoedd a rhaglenni teilwredig yn cynnig cyngor ynghylch marchnadoedd newydd a gwella cynhyrchiant ac integreiddio llais y diwydiant i strategaeth prif ffrwd yr Awdurdod wrth gynllunio cynnyrch a gwasanaethau.

### 1.2.1 Datblygu cadwyni cyflenwi

Helpu cwmnïau mewn cadwyni cyflenwi i ddefnyddio dulliau gweithgynhyrchu cynnil a rhaglenni effeithlonrwydd eraill. Cynyddu gwerth cyfleoedd ar gyfer busnes sydd ar gael i fusnesau Cymreig.

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd | 1,200 | 843 | 1,200 |
| Gwerth cyfleoedd a sicrhawyd ar gyfer busnesau newydd (1) | £101 m | £238.3m | £294m |
| Gwerth busnesau newydd a sicrhawyd | £41 m | £17.1m | £46.8m |

*1. Dros £160 miliwn o gyfleoedd posibl ar gyfer cadwyni cyflenwi o fuddsoddiad GE Power ar Lannau Dyfrdwy; llwyddiant parhaus Cyflymu Cymru (Accelerate Wales)*

### 1.2.2 Rhaglenni arloesedd a thechnoleg

Helpu sefydliadau i lansio cynnyrch a phrosesau newydd; helpu i greu cwmnïau sy'n deillio o sefydliadau addysg ac ymchwil; cynorthwyo sefydliadau i hwyluso'r gwaith o fasnacheiddio ymchwil, a sicrhau buddsoddiad ar gyfer ymchwil a datblygu.

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd (1) | 5,000 | 1,902 | 4,235 |
| Cynnyrch/prosesau newydd a gyflwynwyd | 1,450 | 828 | 1,449 |
| Buddsoddiad Y&D a sicrhawyd | £5.5 | £3.4 | £5.5 |
| Adolygiadau technoleg | 1,620 | 817 | 1,656 |

### 1.2.2 Rhaglenni arloesedd a thechnoleg

*1. Yn dilyn y trosglwyddiad o'r Cynghorau Hyfforddi a Menter blaenorol mae'r diffiniad o fusnesau a gynorthwywyd wedi ei ailseilio er mwyn adlewyrchu mwy o gymorth. Adlewyrchir yr ailseilio hwn mewn gostyngiad yn y canlyniad a ragwelir.*

### 1.2.3 Cyllid Cymru

Darparu ecwiti a benthyciadau i fusnesau bach a chanolig eu maint er mwyn cefnogi prosiectau hyfyw a chefnogi'r gwaith o sefydlu busnesau newydd. Mae Cyllid Cymru ccc wedi llwyddo i sicrhau £45 miliwn o arian o'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a'r sector preifat ar gyfer arian ecwiti, mesanîn a benthyciadau newydd i ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru. Bydd cais am £20 miliwn o arian cyffelyb Amcan 2 yn golygu bod Cyllid Cymru ccc yn gallu cael gafael ar oddeutu £100 miliwn o arian ar gyfer cefnogi busnesau yng Nghymru.

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd (1) | 800 | 124 | 615 |
| Busnesau newydd (2) | 150 | 18 | 76 |

1. *Mae'r rhagolygon ar gyfer ceisiadau am arian o'r gronfa fenthyciadau bychain newydd (1,000-10,000k) wedi bod yn rhy optimistaidd.*
2. *Yn yr un modd, mae nifer y busnesau newydd wedi bod yn is na'r disgwyl, ar wahân i fusnesau yn deillio o dechnoleg.*

### 1.2.4 Cymdeithas gwybodaeth a rhaglenni datblygu cyfryngau

Hyrwyddo manteision defnyddio TGCh i fusnesau; helpu cwmnïau i farchnata a gwneud trafodion ar-lein ac aildrefnu eu busnesau er mwyn cynyddu mantais gystadleuol drwy dechnoleg sy'n seiliedig ar y we.

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd | 1,100 | 587 | 1,100 |
| Adolygiadau technoleg a gyflawnwyd (1) | 900 | 1,425 | 3,500 |

*1. Roedd yr amcangyfrifon gwreiddiol o effaith y rhwydwaith Canolfannau TGCh yn geidwadol. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaethau wedi cynyddu'n gyflym, ac adlewyrchir hyn yn y canlyniad a ragwelir.*

### 1.2.5 Rhaglenni Bwyd-Amaeth

Cefnogi a datblygu busnesau yn y sector Bwyd-Amaeth, gweithredu'r Cynllun Adfer Gwledig gan gynnwys Cyswllt Ffermio, marchnata Bwyd-Amaeth ac Arallgyfeirio ar Ffermydd.

**Allbynnau**

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd (1) | 5,000 | 1,954 | 5,429 |
| Gwerth cyfleoedd a sicrhawyd ar gyfer busnesau newydd (2) | £64m | £4.2m | £64m |
| Gwerth busnesau newydd a sicrhawyd (3) | £22 m | £0.7m | £22m |

*1. Mae nifer y busnesau a gynorthwywyd bellach yn cynnwys y rhai hynny sy'n cael eu cefnogi drwy'r Cynllun Adferiad Gwledig a Chyswllt Ffermio.*

*2/3 Bydd gwerth cyfle a bargeinion yn cynyddu ar ôl yr arddangosfa Fwyd a'r rhaglen weithgareddau yn ystod tymor yr hydref a'r gaeaf.*

### 1.2.6 Safleoedd arbenigol

Datblygu safleoedd addas ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint fel rhwydwaith deori Technium, a chyfleusterau ar gyfer cwmnïau sy'n deillio o'r byd academaidd, ynghyd ag adeiladau ar gyfer mewnfuddsoddwyr ac ar gyfer ehangu busnesau sy'n bodoli'n barod.

**Allbynnau**

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Arwynebedd llawr adeiladau parod arbenigol (1) | 26,500 m sg. | 954 m sg. | 16,575 m sg. |
| Arwynebedd llawr adeiladau ar gyfer busnesau (2) | 28,500 m sg. | 1,585 m sg. | 64,227 m sg. |

*1. Rhoddir sgôr i'r rhan fwyaf o brosiectau ar ôl iddynt gael eu cwblhau yn ail hanner y flwyddyn.  Gostyngiad yn y rhagolygon oherwydd oedi cyn cymeradwyo Technium II/AutoTechnium*

*2. Mae'r cynnydd sylweddol yn y rhagolygon sy'n ymwneud ag adeiladu ar gyfer busnesau yn gysylltiedig â nifer o brosiectau mawr sydd wedi eu dwyn ymlaen e.e. Y Criw Llyfrau.*

## 1.3 Isadeiledd busnes

**Amcanion**
Rhoi sylw i'r prinder safleoedd ac adeiladau addas ar gyfer busnesau cystadleuol lle mae darpariaeth sector preifat yn annigonol neu ddim yn bodoli a sicrhau bod rhwydweithiau cyfathrebu rhagorol ar gael.

**Gweithgareddau**
Cefnogi'r gwaith o ddarparu'r cynllun cyfanwerthu Band Llydan ar gyfer Cymru gyfan mewn partneriaeth â Chymru Arlein; creu gwell arwynebedd llawr masnachol a diwydiannol ar gyfer cwmnïau yng Nghymru, er mwyn ysgogi busnesau i ddewis lleoliadau penodol; paratoi tir â gwasanaethau er mwyn sicrhau bod safleoedd parod a safleoedd ar gyfer busnesau yn cael eu datblygu yn y dyfodol i gefnogi busnesau. Mae gwasanaethau'r Gyfadran Tir yn rhyddhau tir ar gyfer datblygu safleoedd cyflogaeth trwy Gymru.

**Allbynnau**

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd (1) | 200 | 0 | 200 |
| Arwynebedd llawr parod a grëwyd (2) | 22,000 m sg. | 0 | 16,752 m sg. |
| Tir cyflogaeth a gynhyrchwyd (3) | 20 ha | 0.2 ha | 10 ha |
| Swyddi posibl a gefnogwyd (4) | 1,500 | 0 | 1,151 |

*1. Cefnogaeth y rhagwelir y bydd cwmnïau'n ei derbyn gan y prosiect Band Eang sy'n dal i gael ei ddatblygu.*
*2. Prosiectau arwynebedd llawr parod wedi eu gohirio hyd nes y ceir cymeradwyaeth Amcan Un*
*3/4 Gwerthiant safleoedd tir cyflogaeth wedi ei ohirio tan y flwyddyn nesaf gan gynnwys Brocastle (yn aros am gymeradwyaeth ar gyfer arian gan yr UE) a Brackla; safle Rhisga bellach wedi ei ddynodi ar gyfer tai.*

## 1.4 CEFNOGAETH I GYMUNEDAU

**Amcanion**
Datblygu cynlluniau adfywio cymunedau cyfannol mewn partneriaeth dymor hir gydag awdurdodau lleol ac eraill, gan gynnwys cefnogi'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

## 1.4 CEFNOGAETH I GYMUNEDAU

**Gweithgareddau**
Ymgymryd â'r prosiectau sy'n ymwneud ag adennill tir, ac adfywio ardaloedd gwledig a threfol, gan gynnwys Grantiau Gwella Trefi, Grantiau Buddsoddi mewn Adfywio, Grantiau Gwelliannau Amgylcheddol a chynlluniau cymunedol fel y rhaglen E-gymunedau a LEADER+. Mae'r prosiectau allweddol hefyd yn cynnwys y Cynllun Adfywio Gwledig a'r rhaglen Trefi Bychain a Phentrefi. Bydd gwasanaethau'r Gyfadran Tir hefyd yn darparu tir mwynder i helpu gyda'r gwaith o adfywio cymunedau.

**Allbynnau**

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Tir wedi ei adennill (1) | 53 ha. | 0.24 ha. | 84.4 ha. |
| Tir mwynder a grëwyd (2) | 2.0 ha | 2.0 ha | 4.0 ha |

1. *Rhoddir sgôr i brosiectau adennill tir yn ail hanner y flwyddyn.*
2. *Mae'r cynnydd yn y rhagolygon ar gyfer tir mwynder o ganlyniad i werthu safle ym Mhenrhyndeudraeth ar gyfer llwybr y Mileniwm a gwerthu safle yn Llangollen er mwyn creu cyfleustra angori.*

## 1.5 CEFNOGAETH I UNIGOLION

**Amcanion**
Helpu i ddarparu'r modd a'r cyfle i bobl ymuno â'r gweithlu ac annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gael gwaith a sefydlu eu busnesau eu hunain.

**Gweithgareddau**
Annog cyfranogiad a menter drwy raglenni o fewn y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth a gweithio mewn partneriaeth agos ag ELWa. Bydd y Gyfadran Tir yn helpu i gynyddu nifer y tai sydd ar gael drwy brynu a gwerthu tir ar gyfer tai.

**Allbynnau**

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Busnesau a gynorthwywyd (1) | 3,500 | 3,982 | 4,500 |
| Busnesau newydd (2) | 1,760 | 731 | 1,223 |
| Tir ar gyfer tai a grëwyd (3) | 20 ha. | 5 ha. | 28 ha. |
| Unedau tai posibl | 500 | 134 | 550 |

## 1.5 CEFNOGAETH I UNIGOLION

1. *Mae nifer y busnesau a gynorthwywyd wedi cynyddu o ganlyniad i lwyddiant prosiect Potentia a oedd wedi ei anelu tuag at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.*
2. *Mae'r rhagolygon ar gyfer Busnesau newydd wedi eu lleihau gan fod y Fenter Menywod a'r Ffatri Fenter yn hwyr yn dechrau.*
3. *Cynnydd yn y rhagolygon ar gyfer y canlyniad a ragwelir gan fod safle Rhisga bellach wedi ei ddynodi ar gyfer tai.*

# 2. RHAGLENNI CORFFORAETHOL

Mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi'r rhaglenni gweithredol a amlinellwyd uchod.

## 2.1 Buddsoddi Uniongyrchol Tramor

### Gweithgareddau

Bydd y Gyfadran Ryngwladol yn targedu sectorau allweddol mewn gweithgynhyrchu datblygedig a gwasanaethau gwerthadwy gan greu a diogelu swyddi yn unol â meini prawf Invest UK.

### Allbynnau

| Allbynnau | Targed | Gwir hyd yma | Canlyniad a ragwelir |
|---|---|---|---|
| Swyddi a grëwyd (I-UK) | 5,500 | 875[1] | 5,500 |
| Swyddi a ddiogelwyd (I.UK) | 2,550 | 2,281 | 2,550 |
| Swyddi newydd o dramor (I.UK) | 2,600 | 449 | 2,600 |

*Yn cynnwys ehangu Calsonic, Cogent Defence, Excel Industries, General Dynamics; prosiectau newydd yn cynnwys Rand Technology, ETL Solutions, BMiBaby.*

[1]Mae'r farchnad mewnfuddsoddi'n troi'n gynyddol ddyrys, fel yr amlygwyd yn adroddiad diweddar UNCTAD sy'n amcangyfrif fod all-lifau BUT wedi gostwng 55% yn ystod 2001, y lleihad cyntaf ers dros ddegawd.

Serch hynny, rydym yn disgwyl y gwnawn gyflawni'r targed blynyddol cyffredinol ar gyfer 2002/03 ar waethaf lleihad yn nifer y swyddi newydd yn ystod y flwyddyn hyd yma, a'r duedd ddatblygol tuag at brosiectau llai.

Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gyda buddsoddwyr dichonol ym mhob un o'n sectorau targed, gyda chymysgedd cyfartal rhwng Gweithgynhyrchu Uwch a Gwasanaethau Fasnachir yn Rhyngwladol, megis TG a Meddalwedd, a Gwasanaethau Ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd fyd-eang ar brosiectau BUT yn ystod y pedwar mis diwethaf sydd wedi gweld Adwerthu, TG a Meddalwedd, Gwasanaethau Ariannol, Cydrannau Modurol, Cemegion a Bwyd a Diod yn sectorau blaenllaw byd-eang.

## 2.2 Marchnata

Hybu cynlluniau Cymorth Busnes, sbarduno busnes yng Nghymru drwy hysbysebu a hyrwyddo sectorau, ymgyrch eiddo ar gyfer Cymru gyfan.

### Allbynnau

| |
|---|
| Cynnydd yn y nifer sy’n defnyddio cynnyrch a gwasanaethau’r Awdurdod i’w fesur yn ystod blwyddyn y cynllun |
| Cynnydd ym modlonrwydd clientau i’w fesur yn ystod blwyddyn y cynllun |

## 3. BLAENORIAETHAU A THARGEDAU

### 3.1 Cymru'n Ennill

- Mae prif flaenoriaethau, gweithgareddau a deilliannau'r Awdurdod, fel y nodwyd hwy yn y Cynllun Corfforaethol diweddaraf yn uniongyrchol gysylltiedig â nodau, strategaethau a thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Cymru'n Ennill'.

- Yr amcanion sydd yn 'Cymru'n Ennill', a dogfennau strategol eraill, yw sylfaen gweithgareddau'r Awdurdod sy'n cael eu cynllunio'n fanwl ar hyn o bryd drwy'n proses cynllunio busnes.

### 3.2 Entrepreneuriaeth ac Arloesedd

***Arloeseddi a thechnoleg***

- Mae cynlluniau grant SMART, SPUR a RIN ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil a datblygu wedi eu trosglwyddo'n llwyddiannus o Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Awdurdod. Mae'r cynlluniau'n cael eu gwerthuso ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2003.

- Mae'r cysyniad o Technium yn cael ei ledaenu i wahanol rannau o Gymru gyda Technium II a Technium Digidol yn Abertawe, Technium Optig yn Llanelwy a chynlluniau ar gyfer Technium Meddalwedd ym Mharc Menai, a Techniums Rhanbarthol yn Aberystwyth a'r Cymoedd yn dod yn eu blaenau'n dda.

- Mae 1,688 o gwmnïau wedi elwa o'r rhaglenni Technoleg ac Arloesedd ar gyfer Cymru gyfan hyd yn hyn, gan greu neu ddiogelu 676 o swyddi. Sicrhawyd £3.3 m ar gyfer sefydliadau yng Nghymru, gan ddenu £8.76m o'r sector preifat.

***Entrepreneuriaeth a Chefnogaeth i Fentrau***

- Mae swyddogaethau Menter y CHMau blaenorol wedi eu cynnwys yn llwyddiannus fel rhan o weithgareddau'r Awdurdod.

- Bydd y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yn annog entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc drwy brosiect newydd, Dynamo, cynllun 3 blynedd, gwerth £10 m. Mae'r prosiect wedi ei lansio mewn ysgolion yng Nghymru ac mae dros 70 o fodelau rôl wedi eu canfod er mwyn helpu i drosglwyddo'r neges.

## 3.2 Entrepreneuriaeth ac Arloesedd

- Mae rhaglenni Datblygu Cyflenwyr sy'n rhoi hwb i effeithlonrwydd busnesau yn arwain at fwy o gyfleoedd i gyflenwyr o Gymru: mae pecyn dadansoddi newydd yn galluogi cyflenwyr lleol i ddangos i brynwyr bod cael cydrannau gan wledydd cost isel mewn gwirionedd yn ddrutach na'u cael yn lleol; mae Harlow Pressings wedi sicrhau ei gontract blynyddol gwerth £2 filiwn gyda Sony am dariannau metel ar ôl cael statws dim diffygion drwy gymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Cyflenwyr; datblygwyd rhaglen newydd i wella ansawdd, 'Six Sigma', yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a arbedodd tua £2 filiwn i 10 cwmni drwy fabwysiadu camau effeithlonrwydd newydd.

## 3.3 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- Lansiwyd rhaglen Band Eang Cymru, rhaglen gwerth £100 miliwn gan Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a bellach mae'r ddwy linell weithredu gyntaf yn symud yn eu blaenau. Mae'r cynlluniau Cymhorthdal Lloeren DSL a Profi Cyn Prynu wedi cyrraedd y cyfnod gweithredu. Mae'r cynllun Cymhorthdal Lloeren yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig eu maint ym mhob cwr o Gymru nad ydynt yn gallu defnyddio ADSL, er mwyn pontio'r gagendor rhwng ADSL lloeren a thir, gan sefydlu maes chwarae cyfartal. Bydd y cynllun Profi Cyn Prynu yn caniatáu i fusnesau bach a chanolig eu maint o bob cwr o Gymru brofi manteision cyfathrebu band llydan drostynt eu hunain.

- Mae dros 550 o gwmnïau wedi derbyn cymorth ar raglenni Cymorth E-Fusnes hyd yn hyn ac mae dros 1,400 o gwmnïau'n cael adolygiad technegol drwy'r rhwydwaith canolfannau TGCh. Mae hyn yn dilyn llwyddiant gwaith codi ymwybyddiaeth drwy sioe ben ffordd Ôl-gerbyd Technoleg Cymdeithas Wybodaeth Cymru sy'n mynd yn ei blaen yn dda, ac yn ymweld â lleoliadau allweddol ym mhob rhan o Gymru.

- Sefydlwyd Comisiwn Sgrin Cymru, gydag arian craidd gan yr Awdurdod, er mwyn cyd-drefnu Gweithgaredd y Comisiwn Ffilmiau drwy Gymru gyfan. Mae hyn yn golygu bod modd marchnata Cymru'n fwy effeithiol, ar raddfa fyd-eang, fel lleoliad delfrydol i gynhyrchu ffilmiau, a sicrhau mwy o fanteision yn lleol.

## 3.4 Adolygiad Cymorth Busnes

- Mae'r rhwydwaith Pyrth lleol wedi ei sefydlu erbyn hyn gyda 36 o swyddfeydd wedi eu darparu mewn gwahanol rannau o Gymru gan 15 o sefydliadau gwahanol, a sefydlwyd Canolfan Alwadau Genedlaethol a Gwefan dros dro, gyda dewisiadau ar gyfer trefniadau tymor hir yn cael eu hystyried, gan edrych ar brofiadau mewn mannau eraill: (bydd yr Adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Hydref 2003 a bydd y cynllun yn cael ei weithredu o Ionawr 2003 ymlaen), sefydlwyd grwpiau rheoli clientau ym mhob un o'r pedwar rhanbarth.

## 3.4 Adolygiad Cymorth Busnes (parhad)

- Bydd adolygiad o leoliad, trefniadau brandio a'r prif negeseuon ar gyfer y Pyrth yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Hydref 2002 a bwriedir cynnal y lansiad yn Ionawr /Chwefror 2003.

- Cwblhawyd adolygiad ymarfer gorau a oedd yn edrych ar fusnesau newydd a gwasanaethau ymgynghorol diagnostig yn Ebrill 2002 a gweithredwyd yr argymhellion ar unwaith. Gwnaethpwyd adolygiad o System Reoli Cyfrifon yr Awdurdod Datblygu a defnyddiwyd yr argymhellion fel sylfaen ar gyfer trafodaethau gydag ELWa fel corff arall sy'n gweithio yn y maes.

- Mae'r gwaith o fapio cynnyrch a gwasanaethau cymorth busnes yr Awdurdod Datblygu wedi ei wneud ac mae'r gwaith o fewnbynnu data bellach wedi ei gwblhau. Mae dadansoddiad a chynigion ar gyfer symleiddio yn cael eu trafod, a byddant yn bwydo drwodd i farchnata, cynllunio busnes a darparu yn 2003/04.

## 3.5 Adfywio Cymunedau ac Ardaloedd Gwledig

- Mae'r Awdurdod wedi lansio'r ddogfen 'Ymrwymiad i Gymru Wledig' sy'n amlinellu sut rydym yn cefnogi busnesau, cymunedau ac unigolion yng Nghymru wledig drwy weithgareddau prif ffrwd a phenodol fel Bwyd-Amaeth a Timber II, a Cysyllt Ffermio.

- Mae arian gan y Cynulliad dan y Rhaglen Adferiad Gwledig yn helpu cymunedau a busnesau sydd wedi dioddef o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau, a sioeau a digwyddiadau, ac yn y blaen.

- Mae pecyn gweithredu a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth ymdrin ag adfywiad sy'n cael ei arwain gan y gymuned yn adeiladu ar yr arferion gorau a ddatblygwyd yng Nghymru wledig gan ddod â chymorth refeniw a chyfalaf at ei gilydd.

- Mae'r astudiaeth olrhain lwyddiannus, Llwybro, a fu'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn cael ei hymestyn i rannau eraill o Gymru wledig fel yr Astudiaeth Cydbwysedd Oedran.

## 3.6 Marchnata Cymru

- Lansiwyd 'Busnes', y Cylchgrawn ar gyfer Cwsmeriaid, a luniwyd er mwyn datblygu cronfeydd data cwsmeriaid yr Awdurdod Datblygu a helpu i drosglwyddo'r cynigion cymorth busnes, ym mis Medi, ac fe'i dosbarthwyd i 60,000 o fusnesau.

- Cymru yw'r rhanbarth cyntaf yn y DU i gael cynrychiolaeth yn Beijing. Mae'r Awdurdod Datblygu eisoes yn cynnal trafodaethau gyda grwpiau busnes pwysig

yn Tsieina ynghylch buddsoddi yng Nghymru, ac yn gweithio mewn cysylltiad agos â Masnach Cymru Ryngwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Bydd gwefan newydd yr Awdurdod Datblygu'n cael ei lansio cyn bo hir, a bydd yn cynnig gwell arweiniad a mynediad i fusnesau brodorol a rhyngwladol.

## 3.7 Cyllid Cymru

- Mae Cyllid Cymru erbyn hyn wedi sicrhau £45 miliwn o arian Amcan Un i'w fuddsoddi mewn busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru a fydd yn amrywio o fenthyciad o £1k i ecwiti o £750k.

- Buddsoddwyd £14 miliwn yn barod mewn 124 o gwmnïau, gan gynnwys Lanergy, CDSM, OfficeLogic a Portico Software. Mae'r buddsoddiad gan Gyllid Cymru wedi denu £70 miliwn yn ychwanegol o'r sector preifat.

- Mae 18 o fentrau masnachol newydd wedi datblygu o brifysgolion a cholegau yng Nghymru yn ystod chwe mis cyntaf cronfa Fenthyciadau 'Ddeillio' Cyllid Cymru, o gymharu ag 20 yn ystod y 3 blynedd flaenorol.

## 3.8 CORUS

- Sefydlwyd Cwmni Adfywio Tref Casnewydd, er mwyn denu swyddi a buddsoddiad newydd i Gasnewydd a cheisio datblygu safleoedd penodol.

- Disgwylir y bydd y rhaglen ddatblygu safleoedd sy'n werth £14m yn darparu 25,000tr sg o ofod gweithio yng Nghaerffili, Blaenau Gwent, Glynebwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r datblygiad cyntaf, uned weithgynhyrchu o'r radd flaenaf 3,530 m sg. yn Queensway Meadows yn mynd rhagddo.

- Arian Pridiannol gan y Cynulliad sy'n cael eu fuddsoddi gan yr Awdurdod yn y Ganolfan Peirianneg Cynnyrch a Deunyddiau ($EMC^2$) yn hen labordai Corus ym Mhort Talbot, adeiladu swyddfeydd parod gyda'r sector preifat ym Mharc Ynni Baglan, a phrosiectau adfywio yng Ngorseinon.

- Mae cynlluniau i greu campws dysgu ac ysbyty cymunedol ar safle gwaith dur Glynebwy, ar ôl iddo gael ei ddymchwel yn cael eu harchwilio.

## 3.9 Cwpan Ryder 2010

- Bu'r Awdurdod yn ymwneud llawer iawn â phartneriaid, gan gynnwys y Bwrdd Croeso, y Cyngor Chwaraeon a Gwesty Celtic Manor, wrth gynllunio nifer o'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod Gŵyl Golff Haf Cymru 2002. Mae'r rhain wedi rhoi hwb i ddelwedd Cymru fel cartref Cwpan Ryder 2010 ac fel cyrchfan ar gyfer busnes a thwristiaeth golff.

- Mae camau'n cael eu cymryd ar y cyd â'r Cynulliad Cenedlaethol gyda'r bwriad o sefydlu Cwmni a fyddai'n cael ei noddi gan y sector cyhoeddus er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau ar gyfer Cwpan Ryder. Bydd y cwmni hwn yn rheoli cyfraniad Tîm Cymru i'r digwyddiad, yn cysylltu gyda'r Celtic Manor ac yn masnacheiddio'r cyfleoedd sydd ar gael i Gymru.

## 3.10 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

- Mae'r Awdurdod yn cynnig cefnogaeth weithredol i chwe phartneriaeth ranbarthol Amcan Un ac i'r bartneriaeth ranbarthol Amcan Dau, ac ysgrifenyddiaeth ar y cyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer dwy o'r Partneriaethau Strategaeth Amcan Un. Mae'r Awdurdod yn chwarae rhan weithredol mewn partneriaethau lleol, Pwyllgorau Monitro a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â gweithredu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Mentrau Cymunedol.

- Mae tua 30 o brosiectau'r Awdurdod wedi eu cymeradwyo ers dechrau'r rhaglen Amcan Un a disgwylir y byddant yn denu dros £65 miliwn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Awdurdod wedi galluogi dros 20 o brosiectau eraill hyd yn hyn, mewn gwahanol rannau o Gymru, i fynd yn eu blaenau drwy weithredu fel partner i'r ymgeisydd arweiniol.

- Mae'r sefyllfa gyda phrosiectau arfaethedig yn galonogol gyda thros 20 o brosiectau yn y broses o wneud cais, gyda'r Awdurdod fel arweinydd neu fel partner. Mae'r rhain yn amrywio o'r rhai hynny sydd yn eu dyddiau cynnar i rai sydd bron yn barod i gael eu cyflwyno.

## 3.11 Gweithio mewn Partneriaeth

- Mae'r Awdurdod wedi datblygu cysylltiadau gweithio agos gyda phartneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar lefel strategol a gweithredol.

- Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd o Fwrdd yr Awdurdod a Chyngor Cenedlaethol ELWa i drafod materion cyffredin a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth.

- Mae'r Awdurdod yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Croeso ar brosiectau hybu twristiaeth ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Uned Partneriaeth Gymdeithasol Cymru a'i haelodau.

## 3.12 Cloriannu, Monitro ac Adolygu

- Mae adolygiad sylweddol o'r dangosyddion perfformiad presennol a phosibl yn cael ei wneud gyda'r bwriad o gyflwyno mesuryddion

perfformiad newydd yn ystod blwyddyn Cynllun Gweithredol 2003/04.

- Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo er mwyn dilysu gwybodaeth am glientau fel bod modd meincnodi a chymharu perfformiad busnesau sy'n derbyn cymorth gan yr Awdurdod gydag ystadegau swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

- Mae'r dadansoddiad cyntaf o'r prif sectorau sy'n cynnig potensial ar gyfer twf wedi ei gwblhau. Mae cynlluniau ar gyfer gwaith manylach ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ELWa er mwyn blaenoriaethu strategaethau ar gyfer y dyfodol.

- Gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yn mynd rhagddo ynghyd ag astudiaeth feincnodi sylweddol a fydd yn ein galluogi i wneud cymariaethau â rhanbarthau eraill y DU.

## ATODIAD 1 : CRYNODEB ARIANNOL

**AWDURDOD DATBLYGU CYMRU**

**CYLLIDEBAU INCWM A GWARIANT 2002/2003**

**ADOLYGIAD HANNER BLWYDDYN**

| | Cyllideb a Gymeradwywyd £'000 | Newidiadau Arfaethedig I'r Gyllideb £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig Arfaethedig £'000 |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT** | | | |
| Gwariant Rhaglenni ( Gan gynnwys y Rhaglenni Ewropeaidd) | 250,211 | 13,893 | 264,104 |
| Prosiectau Arbennig heb eu hariannu | 13,240 | (5,458) | 7,782 |
| Costau Rhedeg Rheolaeth | 34,923 | 1,732 | 36,655 |
| TAW / TRETH | 3,500 | 0 | 3,500 |
| Diffyg ECSC/ Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1,800 | 0 | 1,800 |
| Taliadau Cyfalaf | 41,913 | 0 | 41,913 |
| **CYFANSWM ( HEB GYNNWYS Y GYFADRAN TIR)** | **345,587** | **10,167** | **355,754** |
| Rhaglen y Gyfadran Tir | 20,700 | 0 | 20,700 |
| Costau Rhedeg Rheolaeth y Gyfadran Tir | 2,560 | 0 | 2,560 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **368,847** | **10,167** | **379,014** |

| | Cyllideb a Gymeradwywyd £'000 | Newidiadau Arfaethedig I'r Gyllideb £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig Arfaethedig £'000 |
|---|---|---|---|
| **ARIANNU** | | | |
| **Cronfeydd y Cynulliad:** | | | |
| Cymorth Grant - Craidd | 212,569 | 20,300 | 232,869 |
| Cymorth Grant - wedi'i Bridiannu | 599 | 500 | 1,099 |
| Ariannu Taliadau Cyfalaf | 41,913 | 0 | 41,913 |
| **Cyfanswm Cronfeydd y Cynulliad:** | 255,081 | 20,800 | 275,881 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 16,760 | 5,458 | 22,218 |
| Prosiectau Arbennig heb eu hariannu | 13,240 | (5,458) | 7,782 |
| Derbyniadau Refeniw | 7,160 | 6,037 | 13,197 |
| Derbyniadau Ewropeaidd | 26,543 | (7,051) | 19,492 |
| Arian Cyfatebol gan y Cynulliad | 26,803 | (9,619) | 17,184 |
| **CYFANSWM ( HEB GYNNWYS Y GYFADRAN TIR)** | **345,587** | **10,167** | **355,754** |
| Wedi'i gynhyrchu gan Gyfadran Tir | 23,260 | 0 | 23,260 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **368,847** | **10,167** | **379,014** |